# DOGFEN WYBODAETH: Ystyriaethau Gweithredu Rhan 3 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

## Cyflwyniad

1. Mae Rhan 3 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Deddf PGChC) yn ymwneud â chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Nid yw Rhan 3 yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ddarfodol ar gyfer awdurdodau contractio wrth i'r dyletswyddau newydd ddod i rym.

2. Bydd yr holl ddyletswyddau sy'n weddill yn Rhan 3 o'r Ddeddf PGChC yn dod i rym ar 25 Mawrth 2026, ac eithrio Adrannau 39 a 42, a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

3. Mae hyn yn golygu, pan ddaw'r dyletswyddau hyn i rym, y byddant yn berthnasol ar unwaith mewn perthynas â'r caffael cyhoeddus a gyflawnir gan bob Awdurdod Contractio a restrir yn Atodlen 1 o'r Ddeddf PGChC.

4. Mae adran 23 yn diffinio caffael cyhoeddus fel a ganlyn:

    a. cynllunio a chyflawni unrhyw weithdrefn cyn dyfarnu contract cyhoeddus gan gynnwys, yn benodol, wahodd ceisiadau a dethol gweithredwyr economaidd
    b. drafftio, negodi a dyfarnu contract cyhoeddus
    c. rheoli contract cyhoeddus ar ôl ei ddyfarnu.

5. Diffinnir contract cyhoeddus yn adran 21 fel contract rhwng un neu ragor o weithredwyr economaidd ac un neu ragor o awdurdodau contractio, sydd â’r amcan o gyflawni gweithiau, cyflenwi cynhyrchion neu ddarparu gwasanaethau. Mae cytundeb fframwaith hefyd i'w drin fel contract cyhoeddus, sy'n golygu bod dyletswyddau Rhan 3 yn berthnasol i'r cytundeb ac i unrhyw gontract yn ôl y gofyn.

6. O ystyried y telerau eang y diffinnir contractau cyhoeddus a chaffael cyhoeddus arnynt, mae hyn yn golygu, pan ddaw'r dyletswyddau yn Rhan 3 i rym, bydd yr holl weithgareddau caffael neu reoli contractau sy'n mynd rhagddynt yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau hynny, gan gynnwys yr holl brosesau caffael a ddechreuodd cyn y dyddiad dod i rym.

7. Dylid nodi nad yw'r gofynion (adrannau 24(1) a (2)) i weithredu'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gaffael a dilyn y nodau llesiant yn ddyletswyddau newydd i'r rhan fwyaf o'r sefydliadau a restrir yn Atodlen 1 o Ddeddf PGChC. Mae hyn eisoes yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD 2015).

8. Fodd bynnag, mae nifer fach o gyrff a restrir yn Atodlen 1 nad ydynt hefyd wedi'u rhestru fel "corff cyhoeddus" yn adran 6(1) o Ddeddf LlCD 2015. Ar gyfer y cyrff hynny mae'r dyletswyddau cyffredinol hyn hefyd yn newydd.

## Gosod amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol a chyhoeddi adroddiadau blynyddol.

9. Bydd y gofyniad i osod amcanion caffael yn berthnasol cyn gynted ag y daw'r dyletswyddau i rym (adran 24(3)), a dylai Awdurdodau Contractio gymryd camau i osod amcanion cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl oherwydd bydd yn ofynnol iddynt adrodd ar sut maent wedi cyflawni eu hamcanion yn eu Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar Gaffael Cymdeithasol Gyfrifol (adran 39(2)(a) i (c)), y mae'n rhaid ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol gyntaf, h.y. ar ôl Ebrill 2027.

10. O ystyried yr amser y bydd yn ei gymryd i Awdurdodau Contractio baratoi a chyhoeddi Amcanion, ni fydd yn bosibl i'r amcanion hyn fod yn berthnasol i'r holl gontractau cyhoeddus a ddyfarnwyd yn y flwyddyn 2026/27. Felly, bydd disgwyl i flwyddyn gyntaf yr adroddiadau blynyddol adrodd ar gyflawni amcanion ar gyfer cymaint ag sy'n bosibl o gyfnod y flwyddyn ariannol flaenorol.

## Cymalau a Hysbysiadau Gweithiau a Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol

11. Mae'r ddyletswydd i ystyried cynnwys cymalau gweithiau neu weithlu cyhoeddus cymdeithasol ym mhob achos o gaffael perthnasol, ac i hysbysu Gweinidogion Cymru os nad ydynt yn cael eu cynnwys, hefyd yn berthnasol cyn gynted ag y daw'r gyfraith i rym.

12. Dylid nodi y bydd y rhwymedigaeth i ystyried cynnwys cymalau perthnasol yn berthynol i'r holl awdurdodau contractio a restrir yn Atodlen 1 o'r Ddeddf PGChC cyn gynted ag y bydd y Ddeddf mewn grym. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau contractio ystyried cynnwys yr holl gymalau perthnasol mewn contract yn ôl y gofyn, hyd yn oed os cafodd y cytundeb fframwaith neu'r farchnad ddynamig eu gwneud gan gorff nad yw'n cael ei gynnwys yn Atodlen 1 (er enghraifft corff sydd wedi'i leoli y tu allan i Gymru) neu os cawsant eu gwneud cyn i'r gyfraith ddod i rym. Os yw'r awdurdod sy'n creu'r contract yn ôl y gofyn yn penderfynu nad yw'n bwriadu cynnwys y cymalau, bydd angen anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru, fel y disgrifir uchod.

13. *Dim ond* wrth gynnal caffael yn y cam "cynllunio" a "cyflawni unrhyw weithdrefn cyn dyfarnu contract " ar y dyddiad dod i rym, sef 25 Mawrth 2026, y bydd angen hysbysiad am beidio â chynnwys cymalau gweithiau neu weithlu cyhoeddus cymdeithasol. Nid oes angen hysbysiad (gweler adrannau 25(1)(c) a (d) a 26(1)(c) a (d)) ar gyfer contractau yn y camau "negodi a dyfarnu" neu "rheoli'r contract" ar y dyddiad dod i rym. Er mwyn i gontract gael ei ystyried ei fod yn y cam "negodi a dyfarnu", disgwylir y byddai cyflenwr wedi cael ei bennu.

14. Felly, bydd angen i Awdurdodau Contractio ystyried cynnwys cymalau gweithiau neu weithlu mewn perthynas ag unrhyw gaffael ar gyfer contract perthnasol nad yw wedi cyrraedd y cam "negodi a dyfarnu" eto, a hysbysu Gweinidogion Cymru os nad ydynt yn cynnwys y cymalau, ynghyd â'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny. Dylai'r rhesymau hyn gynnwys crynodeb o amserlenni prosiectau.

15. Yn eu hymateb i hysbysiad, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried faint o'r ymarfer caffael oedd eisoes ar y gweill cyn i ddyletswyddau Rhan 3 o Ddeddf PGChC ddod i rym yn llawn, ac a fyddai wedi bod yn rhesymol i gynnwys y cymalau wrth benderfynu a ydynt yn fodlon â'r rhesymau a roddir.

## Cytundebau Fframwaith, Systemau Prynu Dynamig a Marchnadoedd Dynamig

16. Bydd y dyletswyddau newydd yn berthnasol i bob contract a ddyfarnwyd ar ôl y dyddiad dod i rym, gan gynnwys contractau yn ôl y gofyn mewn perthynas â threfniant sefydledig fel cytundeb fframwaith, system brynu ddynamig neu farchnad ddynamig. Bydd angen i Awdurdodau Contractio ystyried sut i wneud y gorau o'r cyfle i gyflawni'r nodau llesiant drwy'r contractau hyn.

17. Os yw'r contract yn ôl y gofyn ar gyfer contract adeiladu mawr neu gontract allanoli gwasanaethau, bydd angen hysbysiad os nad yw'r contract yn cynnwys y cymalau gweithiau neu weithlu yn y drefn honno.

18. Diffinnir "contract cyhoeddus" yn adran 21 fel (a) "contract rhwng un neu ragor o weithredwyr economaidd ac un neu ragor o Awdurdodau Contractio, sydd â’r amcan o gyflawni gweithiau, cyflenwi cynhyrchion neu ddarparu gwasanaethau". Mae adran 21(2) yn ei gwneud yn ofynnol i gytundeb fframwaith gael ei drin fel contract cyhoeddus. Mae adran.25(2) yn diffinio “contract adeiladu mawr fel contract cyhoeddus sy'n gontract gweithiau sydd â gwerth o £2m neu fwy".

## Strategaethau Caffael a Chofrestrau Contractau

19. Bydd angen gweithredu ar baratoi strategaethau caffael a chyhoeddi cofrestrau contractau cyn gynted ag y daw'r dyletswyddau newydd i rym. Gweler y canllawiau am y manylion.